



Tanau gwyllt: Dull gweithredu partneriaeth strategol yng Nghymru

Cyfres Seminarau'r Gwanwyn / Haf 2023

Dydd Mawrth, 16 Mai 2023, 10:00-11:30

Cwestiynau Cyffredin

C: Mae mynyddoedd ar dân yn Nyffryn Aman Uchaf yn beth cyffredin i'w weld. Rhoddir y bai ar bobl ifanc yn aml, ond caiff rhai o'r tanau hyn eu cynnau ar gyfer rheoli'r tir.

- **A gynhwysir gwaith llosgi dan reolaeth (sy'n aros dan reolaeth) yn yr ystadegau?**
- **A ydynt yn cyfrif fel tanau bwriadol?**
- **A oes unrhyw ystadegau ynglŷn â phwy sy'n cynnau'r tanau hyn, er enghraifft, a yw tanau'n cael eu cynnau gan bobl ifanc, ymwelwyr, neu ddefnyddwyr y tir?**

A: Mae'n bosibl i bobl roi gwybod i adrannau Rheoli Tân eu bod yn gwneud gwaith llosgi dan reolaeth, ac felly, yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd yno, felly ni chynhwysir y tanau hyn yn yr ystadegau. Mae'r ffordd o nodi'r achos wedi ei gyfyngu i gynnuau bwriadol / damweiniol, ac mae'n annhebygol y gellid nodi natur yr unigolyn oherwydd nid yw'r wybodaeth hon ar gael gan amlaf ar yr amser pan fydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn bresennol.

C: Pa mor berthnasol yw'r ddeddfwriaeth bresennol ac a ydych yn teimlo ei bod yn bryd ei hadolygu?

A: Cyhoeddwyd y cod yn 2009, ac mae pethau wedi symud yn eu blaenau o ran technegau, dulliau a chanlyniadau rheoli tir. Byddai adolygiad newydd o gymorth i fframio'r dirwedd a'r sefyllfa newydd lle mae angen y cod a'r ddeddfwriaeth heddiw, a byddai'n rhoi cyfle gwych i fyfyrion ac asesu beth sydd ei angen 'nawr.

Yn ogystal, mae'r gymuned ffermio wedi newid o ran y ffordd mae'n gwneud llawer o'r gwaith rheoli. Wrth symud ymlaen yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, mae angen darn o ddeddfwriaeth i ategu a sicrhau mwy o raglenni blynyddol o reoli tir, nid o fewn cyfnodau penodol o'r flwyddyn yn unig.

Mae Rheolau Llosgi Grug a Glaswellt ar hyn o bryd yn rhoi golwg gyfyng ar gyfleoedd eraill y gellir eu gwneud ochr yn ochr, ac felly dylid ystyried adolygiad yn gyfle ar gyfer cydweithio. Yn ddelfrydol, byddai'n dda o beth i'r gymuned Rheoli Tir

edrych mwy ar y math o reolaeth fynych, yn hytrach na dim ond effeithiau byrdymor rheoli llwyth tanwydd ar adegau penodol o'r flwyddyn.

Byddai adolygiad yn rhoi'r cyfle hefyd i ystyried agweddau amgen; mae'n bosibl nad yw llosgi'n briodol bob amser, ac mae yna lawer o dechnegau rheoli eraill sy'n gwneud cymaint o ddaioni. Mae Bwrdd Tanau Gwylt Cymru yn cydweithio i roi'r wybodaeth honno i gymunedau rheolwyr tir ledled Cymru.

Mae Bwrdd Tanau Gwylt Cymru a'r Siarter yn ystyried dewisiadau gweithio'n ddoethach mewn perthynas â'r cyfleoedd sydd ar gael i reolwyr tir i losgi mewn ardaloedd lle nad oes adar yn eu llawn dwf sy'n nythu, neu lle nad oes rhywogaethau penodol o ffawna a fflora yr effeithid arnynt gan y math hwnnw o reoli llystyfiant sydd ar waith ar hyn o bryd.

Drwy bartneriaethau a gweithio gydag ymarferwyr bywyd gwylt, mae angen ystyried ffordd newydd ymlaen, a chroesewid adolygu'r cod.

C: Parthed tanau damweiniol, mae partneriaid wedi trafod yn ddiweddar y posibilrwydd o wahardd barbeciwiau untro, yn enwedig yn agos at Barciau Cenedlaethol. A ellid dadlau dros hyn yng Nghymru oherwydd y cynnydd mewn perygl?

A: Mae barbeciwiau untro, gwerysilla gwylt, a chynnau tân yn amhriodol at ddiben hamdden yn bethau mae Bwrdd Tanau Gwylt Cymru yn ymwybodol ohonynt ac yn eu monitro'n ofalus. Casglodd y Gwasanaeth Tân rywfaint o ddata ynglŷn â hyn y llynedd, a thros Gymru ni chanfuwyd problem sylweddol, ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu nad yw'n rhywbeth y dylid ei ystyried ar gyfer y dyfodol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n dymuno galluogi pobl i fynd i fannau gwyrdd, ac mae pryder y byddai cyfyngu ar farbeciwiau'n gwrthio pobl ymaith. Yr hyn sy'n bwysig yw sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r peryglon a sicrhau bod mannau diogel ar gael lle gallant eu defnyddio, sydd wedi eu rheoli ac sy'n ddiogel.

C: A oes unrhyw sector sydd ar goll o'r Bwrdd neu'r Siarter y byddech yn hoffi ymwneud ag o mewn perthynas ag ychwanegu at y sgwrs a chydabod cyfrifoldebau?

A: Dim ond yr haf hwn mae'r Siarter wedi cael ei lansio, felly disgwylir iddi dyfu ac ehangu. Disgwylir y bydd mwy o gymunedau, sefydliadau ac unigolion yn ymgysylltu wrth i'r diben ddod yn fwy hysbys.

C: Pa mor hir mae gronynnau o danau gwylt yn aros yn yr aer?

A: Mae'r gronynnau mân yn ymddwyn yn debycach i nwy, felly gallant aros yn yr aer am gryn amser. Byddant yn gwasgaru ac yn gwanhau oddi wrth y tarddiad, felly nid ydynt yn syrthio'n syth.

Mae effeithiau tanau gwylt yn sylweddol, ac mae'r llygryddion a ddaw o'r tanau'n niweidiol. Mae tanau gwylt yn cael yr un effeithiau ar yr amgylchedd â llygryddion sy'n dod o bibelli gwacáu ceir.

Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y gymuned yn allweddol, yn enwedig gan ein bod yn debygol o weld cynnydd mewn tanau gwyllt o ganlyniad i newid hinsawdd.

DOLENNI DEFNYDDIOL

- Gwefan Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru – [Cymunedau Mwy Diogel i Gymru – Cymunedau Mwy Diogel Cymru](#)
- Cofrestrwch i dderbyn BRIFF – newyddlen Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru – bob pythefnos drwy e-bostio safercommunities@wlga.gov.uk
- Gwefan Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – [Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru \(tancgc.gov.uk\)](#)
- Prosiect Llethrau Llon – [Llethrau Llon – Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru \(decymru-tan.gov.uk\)](#)
- Gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru – [Cyfoeth Naturiol Cymru](#)
- Forest Research – [Wildfires in Wales – Final Report](#)
Adroddiad terfynol y prosiect hwn a oedd yn ceisio disgrifio a deall problem tanau gwyllt yn rhanbarth Cymoedd y De a chynnig argymhellion ar gyfer rheolaeth briodol ac ymatebion polisi. Mai 2011.